# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Mehefin 2017

Amser: 14.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(Tudalen 1)

**CLA(5)-15-17 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**SL(5)11 - Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2017**

## 3 Papurau i'w nodi

**Ymateb y Llywodraeth: SL(5)098 - Canllawiau Statudol - Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio**

(Tudalen 2)

**CLA(5)-15-17 - Papur 2** - Ymateb y Llywodraeth

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Ymateb y Llywodraeth: SL(5)104 - Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru**

(Tudalen 3)

**CLA(5)-15-17 - Papur 3** - Ymateb y Llywodraeth

**Ymgynghoriad ar God Erlyn Llywodraeth Cymru**

(Tudalennau 4 - 15)

**CLA(5)-15-17 - Papur 4** - Cod Erlyn Llywodraeth Cymru

**Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Bil y Diddymu Mawr**

(Tudalennau 16 - 19)

**CLA(5)-15-17 - Papur 5** - Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Bil y Diddymu Mawr

**Gohebiaeth mewn perthynas â'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)**

(Tudalennau 20 - 27)

**CLA(5)-15-17 - Papur 6** - Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Diwylliant
**CLA (5) -15-17 - Papur 7** - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Diwylliant

**Gohebiaeth mewn cysylltiad â Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

(Tudalen 28)

**CLA(5)-15-17 –Papur 8** – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 5 Gohebiaeth ynghylch papurau i'w nodi

(Tudalennau 29 - 31)

**CLA(5)-15-17 – Papur 9** – Llythyr i'r Gweinidog Busnes
**CLA(5)-15-17 – Papur 10** – Llythyr i'r Cwnsel Cyffredinol

## 6 Trafod offerynnau statudol: y goblygiadau sy'n deillio o adael yr UE

(Tudalennau 32 - 33)

**CLA(5)-15-17 – Papur 11** – Trafod yr offerynnau statudol

## 7 Ymchwiliad Llais Cryfach i Gymru

(Tudalennau 34 - 37)

**CLA(5)-15-17 – Papur 12** – Ymagwedd at sesiwn y rhanddeiliaid
Ymatebion i'r ymgynghoriad (Anfonir mewn pecyn atodol)

## 8 Adroddiad drafft: Y Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(Tudalennau 38 - 54)

**CLA(5)-15-17 – Papur 13** – Adroddiad Drafft

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

19 Mehefin 2017

Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir

Eitem 2

12 Mehefin 2017

# SL(5)111 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2017

## Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") i adlewyrchu newidiadau yn y Rheolau Mewnfudo, sef y rheolau a ddiffinnir yn y Rheoliadau hynny fel y rheolau a osodwyd fel y soniwyd yn adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971

**Deddf wreiddiol:** Deddf Tai (Cymru) 2014

**Dyddiad y'i gwnaed:** Heb ei nodi

**Dyddiad y'i gosodwyd:** Heb ei nodi

**Dyddiad y daw i rym:** 22 Mehefin 2017

# Eitem 3.1

**Canllawiau Statudol – Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am dynnu sylw at y dryswch a allai godi o'r defnydd o 'rhaid', 'dylai' a 'gall' yn y canllawiau statudol, *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*.

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y canllawiau hyn, argymhellodd nifer o'r ymatebwyr y dylai eu teitl nodi'n glir at ba gyrff cyhoeddus y maent yn cyfeirio. Roedd yr ymgyngoreion hefyd yn galw am i'r canllawiau gydnabod na fyddent yn gymwys i'r cyrff cyhoeddus hynny yn yr un ffordd, o gofio am eu swyddogaethau amrywiol a'r wybodaeth amrywiol a ddelir ganddynt.

Gwnaed ymdrechion i fireinio'r canllawiau yng ngoleuni'r sylwadau hyn. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y gall hynny fod wedi arwain at ddiffyg eglurder ynghylch rhai o gyfrifoldebau'r cyrff cyhoeddus, mewn rhai achosion.

Byddwn, felly, yn ysgrifennu at y cyrff cyhoeddus o dan sylw i egluro sut y mae'r termau 'rhaid' a 'dylai' i gael eu deall. Pan fo 'gall' yn ymddangos yn y canllawiau mewn perthynas â chyfrifoldebau'r cyrff penodedig, mae'r defnydd ohono yn adlewyrchu'r defnydd o 'caiff' yn narpariaethau cofnodion amgylchedd hanesyddol y Ddeddf i ganiatáu ar gyfer amrywio'r gofynion yn ôl natur y corff cyhoeddus a'r wybodaeth o dan sylw.

Yn y tymor hwy, byddwn yn adolygu'r canllawiau ac yn eu diwygio mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor ac unrhyw adborth y byddwn yn ei gael gan y cyrff cyhoeddus unwaith y byddant yn dechrau defnyddio'r canllawiau yn dilyn cychwyn y darpariaethau cofnodion amgylchedd hanesyddol yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ar 31 Mai 2017.

**Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am dynnu sylw at y ffaith y gallai'r *Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru* gael ei ddrafftio'n fwy eglur er mwyn helpu Gweinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddeall ystyron “dylai” a “rhaid” yn y Cod.

Mae'r Cod Ymarfer yn egluro o dan ba amgylchiadau y gellir cynnig neu wneud cytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaethau. Mae'r defnydd o ddarpariaethau o'r fath wedi'i gyfyngu i amgylchiadau penodol iawn ac felly mae'r Cod wedi'i anelu'n bennaf at Gyfoeth Naturiol Cymru, fel un o'r ddau awdurdod amgylcheddol dynodedig. Gweinidogion Cymru yw'r llall. Lluniwyd y Cod mewn cydweithrediad agos â Chyfoeth Naturiol Cymru a'i gyflwyno i'w Fwrdd Busnes Rheoleiddio a'i Fwrdd Bioamrywiaeth er gwybodaeth cyn ei gyhoeddi.

Er bod “rhaid” yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gyfeirio at ofynion statudol penodol yn y Cod rydym yn cydnabod bod anghysondebau posibl rhwng y defnydd o'r geiriau “rhaid” a “dylai”, mewn rhai achosion eraill.

Bydd fy swyddogion yn ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru, felly, i egluro sut y mae'r geiriau “rhaid” a “dylai” i'w deall. Byddant yn egluro fod y Cod, wrth ddefnyddio “rhaid”, yn mynegi gofyniad cyfreithiol penodol neu'n cael ei ystyried i fod o'r flaenoriaeth uchaf er mwyn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar rywogaethau goresgynnol. Mae'r gair “dylai” yn mynegi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran y ffordd y dylid cynnal gweithrediadau i gydymffurfio â'r gofynion er mwyn sicrhau canlyniad boddhaol, cymesur a chyson wrth gyflawni darpariaethau rheoli rhywogaethau. Mae'r Cod i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd nodyn yn egluro'r defnydd o'r geiriau “rhaid” a “dylai” i'r rheini sy'n ddarostyngedig i gytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaethau hefyd yn cael ei roi ar y wefan.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cymhwysiad y Cod hwn fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd ar nifer y cytundebau a'r gorchmynion rheoli rhywogaethau a ddyroddir bob blwyddyn. Yn y tymor canolig, byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r Cod yng ngoleuni sylwadau'r Pwyllgor ac unrhyw adborth a gawn oddi wrth unrhyw bartïon a effeithiwyd.

Eitem 3.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cod Erlyn
# Llywodraeth Cymru



OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31268 ISBN digidol 978 1 4734 9283 7

# Tabl Cynnwys


Rhagair .................................................... 2

Egwyddorion Cyffredinol Erlyniadau .................................................... 3

Y Prawf Erlyn .................................................... 4

Dewis Troseddau .................................................... 7

Rhybuddion Syml .................................................... 8

Lleoliad ar gyfer treial .................................................... 9

Derbyn Pleon Euog .................................................... 10

Ailystyried Penderfyniad i Erlyn .................................................... 11

# Rhagair

1. Mae Cod Erlyn Llywodraeth Cymru (y “Cod”) yn rhoi arweiniad i Erlynwyr ynglŷn â’r egwyddorion y dylid eu hystyried wrth wneud penderfyniadau sy’n ymwneud ag erlyniadau.

2. Mae penderfynu erlyn yn gam difrifol. Mae erlyniad teg ac effeithiol yn hanfodol er mwyn cynnal cyfraith a threfn. Mae gan bob erlyniad oblygiadau difrifol i bawb sy’n gysylltiedig ag ef, gan gynnwys tystion a diffynyddion. Bwriad y Cod hwn yw sicrhau bod penderfyniadau teg a chyson yn cael eu gwneud am erlyniadau. Cyhoeddir y Cod hwn gan y Cwnsler Cyffredinol.

3. Mae’r Cwnsler Cyffredinol, yn rhinwedd adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y “Ddeddf”) yn aelod o Lywodraeth Cymru. Mae adran 67 o’r Ddeddf yn galluogi’r Cwnsler Cyffredinol i gychwyn erlyniadau drwy ei hawl ei hun.

4. Mewn rhai achosion bydd y pŵer i gychwyn erlyniad wedi ei gadw i Weinidogion Cymru. Yn yr achosion hynny, bydd erlyniadau’n cael eu cychwyn yn enw Gweinidogion Cymru. Mae cyfeiriad at “Erlyniad Llywodraeth Cymru” yn y Cod hwn yn gyfeiriad at erlyniad sy’n cael ei gychwyn yn unol â swyddogaeth Cwnsler Cyffredinol neu Weinidogion Cymru.

5. Yn y Cod hwn, defnyddir y term “y sawl a ddrwgdybir” i ddisgrifio person neu gorff corfforaethol neu anghorfforaethol o bersonau nad yw eto’n destun achos troseddol ffurfiol; defnyddir y term “diffynnydd” i ddisgrifio person neu gorff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol sy’n destun achos troseddol ffurfiol; a defnyddir y term “troseddwr” i ddisgrifio person neu gorff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol sydd wedi cyfaddef ei fod yn euog i ymchwilydd neu erlynydd, neu sydd wedi cael ei ddyfarnu’n euog mewn llys barn.

6. Mae cyfeiriad at “erlynydd” neu “erlynwyr” yn y Cod hwn yn gyfeiriad at gyfreithwyr sy’n darparu cyngor a chynrychiolaeth mewn cysylltiad ag Erlyniadau Llywodraeth Cymru. Defnyddir y termau “ymchwilydd” neu “ymchwilwyr” i ddisgrifio swyddogion neu asiantau Llywodraeth Cymru sy’n ymchwilio i droseddau honedig fel rhan o’u dyletswyddau.

7. Mewn rhai achosion mae’n bosibl y bydd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn penderfynu cymryd Erlyniad Llywodraeth Cymru drosodd, neu gall y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus gychwyn achos yn ymwneud â throseddau lle mae gan y Cwnsler Cyffredinol neu Weinidogion Cymru swyddogaethau erlyn hefyd. Yn yr achosion hyn bydd y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn berthnasol. Os bydd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn erlyn o dan gytundeb asiantaeth yn unol ag adran 83 o’r Ddeddf, bydd yn ofynnol iddo roi sylw dyledus i’r Cod hwn yn ogystal â’r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

# Egwyddorion Cyffredinol Erlyniadau

8. Rhaid i erlynwyr sicrhau bod pob achos yn cael ei ystyried ar sail ei ffeithiau ei hun, bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso'n briodol ym mhob achos a bod pob tystiolaeth berthnasol yn cael ei rhoi gerbron y llys.

9. Ni ddylai erlynwyr gychwyn erlyniad a fyddai'n cael ei ystyried gan y llys fel un gorthrymol neu annheg sy'n camddefnyddio proses y llys, na pharhau ag erlyniad o'r fath.

10. Wrth ystyried a ddylid cychwyn erlyniad, rhaid i erlynwyr fod yn deg, yn annibynnol ac yn wrthrychol. Rhaid i erlynwyr sicrhau nad ydynt yn gadael i unrhyw farn bersonol ynglŷn â nodweddion y sawl a ddrwgdybir, y dioddefwr neu unrhyw dyst ddylanwadu ar eu penderfyniadau. Wrth ystyried a ddylid cychwyn erlyniad, rhaid i erlynwyr sicrhau nad effeithir arnynt gan bwysau amhriodol neu ormodol o unrhyw ffynhonnell, boed o fewn Llywodraeth Cymru neu y tu allan iddi. Rhaid i erlynwyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a pherthnasol ar gydraddoldeb.

11. Rhaid i erlynwyr weithredu darpariaethau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998, ym mhob cam o achos. Rhaid i erlynwyr hefyd gydymffurfio â'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol sydd mewn grym ar hyn o bryd a rhoi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[1].

[1] Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ynghylch ac mewn cysylltiad â rhoi effaith bellach yng Nghymru i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a roddir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

# Y Prawf Erlyn

12. Ni ddylid cychwyn erlyniad oni bai fod yr achos wedi pasio dau gam y Prawf Erlyn. Y ddau gam yw: (i) y cam tystiolaeth ddigonol, yn cael ei ddilyn gan (ii) y cam budd i'r cyhoedd.

## Y Cam Tystiolaeth Ddigonol

13. Rhaid i'r erlynwyr fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i ddarparu siawns realistig o euogfarn, yn achos pob unigolyn a ddrwgdybir, a phob trosedd sy'n cael ei hystyried. Rhaid i'r erlynwyr ragweld dadleuon yr amddiffyniad a sut y gallent effeithio ar y siawns o euogfarn. Ni ddylai unrhyw achos nad yw'n pasio'r cam tystiolaeth ddigonol fynd yn ei flaen, ni waeth pa mor ddifrifol neu sensitif ydyw.

14. Mae'r canfyddiad bod siawns realistig o euogfarn yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol yr erlynydd o'r dystiolaeth, ar ôl ystyried unrhyw amddiffyniad a gyflwynwyd yn barod neu a allai gael ei gyflwyno gan y sawl a ddrwgdybir. Mae'n golygu y bydd rheithgor, neu fainc o ynadon, neu farnwr yn gwrando achos ar ei ben ei hun, â chyfarwyddyd priodol a chan weithredu yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o ddyfarnu bod y diffynnydd yn euog o'r drosedd honedig.

15. Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, dylai erlynwyr ystyried y ffactorau a ganlyn:

a) Pa mor dderbyniol fyddai'r dystiolaeth mewn llys. Dylai erlynwyr ystyried a yw'r holl dystiolaeth yn debygol o fod yn dderbyniol ai peidio. Os oes rhywfaint o dystiolaeth yn debygol o gael ei diystyru gan y llys, dylai'r erlynwyr ystyried a oes digon o dystiolaeth sy'n dderbyniol ar gyfer siawns realistig o euogfarn.

b) A yw'r dystiolaeth yn ddibynadwy. Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw reswm dros gwestiynu dibynadwyedd y dystiolaeth, gan gynnwys ei chywirdeb neu ei chyfanrwydd.

c) A yw'r dystiolaeth yn gredadwy. Dylai erlynwyr ystyried a oes unrhyw reswm dros amau hygrededd y dystiolaeth.

## Y Cam Budd i'r Cyhoedd

16. Rhaid ystyried budd y cyhoedd ym mhob achos lle mae digon o dystiolaeth i ddarparu siawns realistig o euogfarn. Rhaid i erlynwyr bwyso a mesur y ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus ac yn deg.

17. Cynhelir erlyniad fel arfer, oni bai fod yr erlynydd yn fodlon bod y ffactorau budd i'r cyhoedd sydd â thuedd yn erbyn erlyn yn bwysicach na'r rhai sydd â thuedd o blaid. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd yr erlynydd yn

fodlon y gellir sicrhau budd y cyhoedd yn briodol drwy gynnig cyfle i'r troseddwr dderbyn Rhybudd Syml yn hytrach na dwyn erlyniad.

18. Wrth benderfynu ynglŷn â budd y cyhoedd, dylai erlynwyr ystyried y ffactorau a ganlyn:

a) Difrifoldeb y drosedd. Po fwyaf difrifol yw'r drosedd po fwyaf tebygol yw hi bod angen erlyniad.

b) Amgylchiadau'r drosedd. I ba raddau roedd y drosedd wedi ei rhagfwriadu a/neu ei chynllunio. A yw'r sawl a ddrwgdybir wedi parhau i gyflawni'r drosedd er gwaethaf pob ymdrech i sicrhau cydymffurfiad, er enghraifft drwy ddulliau gorfodi eraill, gan gynnwys ymyriadau rheoleiddiol a chosbau sifil.

c) Amgylchiadau'r sawl a ddrwgdybir, ac a oes ganddo gollfarnau troseddol blaenorol.

d) Oed y sawl a ddrwgdybir ar adeg y drosedd. Mae'r system cyfiawnder troseddol yn trin unigolyn dan 18 oed yn wahanol i oedolion. O ganlyniad, rhaid rhoi pwys sylweddol ar oed y sawl a ddrwgdybir os yw dan 18 oed. Mae budd pennaf a llesiant unigolion sydd dan 18 oed o'r pwys mwyaf. Rhaid i erlynwyr roi sylw i'r rhwymedigaethau sy'n codi dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy'n rhoi effaith bellach yng Nghymru i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a roddir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

e) Amgylchiadau'r dioddefwr (mewn achosion lle gellir dweud pwy yw'r dioddefwr). Po fwyaf agored i niwed yw'r dioddefwr, po fwyaf y tebygolrwydd y bydd angen erlyniad.

f) Effaith y troseddu ar yr amgylchedd. Po fwyaf yw effaith y troseddu ar yr amgylchedd, po fwyaf y tebygolrwydd y bydd angen erlyniad.

g) Effaith y troseddu ar y gymuned. Po fwyaf yw effaith y troseddu ar y gymuned, po fwyaf y tebygolrwydd y bydd angen erlyniad.

h) Dylai erlynwyr ystyried a oes elfen o berygl i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd.

i) Dylai erlynwyr hefyd ystyried a yw erlyniad yn gymesur â'r canlyniad tebygol, ac wrth wneud hynny dylent ystyried faint fyddai'r gost i Lywodraeth Cymru a'r system cyfiawnder troseddol ehangach. Er hyn, ni ddylai erlynwyr benderfynu ynglŷn â budd y cyhoedd ar sail cost yn unig.

j) Dylai erlynwyr ystyried a allai bwrw ymlaen ag erlyniad achosi niwed i ffynonellau gwybodaeth, cysylltiadau rhyngwladol neu ddiogelwch gwladol.

19. Mae'r ffactorau a restrwyd uchod yn rhoi arweiniad i erlynwyr wrth

benderfynu a yw cychwyn neu barhau ag erlyniad o fudd i'r cyhoedd. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, ac ni fydd yr holl ffactorau budd y cyhoedd yn berthnasol i bob achos. Bydd y pwysoliad i'w roi i bob ffactor budd y cyhoedd yn amrywio hefyd gan ddibynnu ar ffeithiau a rhagoriaethau pob achos.

# Dewis Troseddau

20. Dylai erlynwyr ddewis troseddau sydd:

a) yn adlewyrchu difrifoldeb a maint y troseddu;
b) yn rhoi pwerau addas i'r llys gael dedfrydu a gosod gorchmynion priodol ar ôl dyfarnu rhywun yn euog o drosedd; a
c) yn sicrhau bod modd cyflwyno'r achos mewn ffordd glir a syml.

21. Ni ddylai erlynwyr fwrw ymlaen â mwy o droseddau nag sy'n angenrheidiol, a hynny'n unig er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i ychydig ohonynt. Yn yr un modd, ni ddylai erlynwyr fwrw ymlaen â throsedd fwy difrifol er mwyn annog diffynnydd i bledio'n euog i un lai difrifol.

## Rhybuddion Syml

22. Mae Rhybudd Syml yn fater difrifol. Mae'n gyfaddefiad gan y troseddwr ei fod wedi cyflawni trosedd. Gellir rhoi Rhybudd Syml i rywun yn hytrach na'i erlyn mewn llys, os yw hynny'n ymateb priodol i ddifrifoldeb a chanlyniadau'r troseddu. Rhaid i erlynwyr ddilyn unrhyw ganllawiau perthnasol pan ofynnir iddynt roi cyngor ynglŷn â Rhybudd Syml neu awdurdodi Rhybudd Syml[2]. Rhaid i'r erlynwyr fod yn fodlon bod cyfaddefiad digon clir o euogrwydd i ddarparu siawns realistig o euogfarn, ac y byddai cam o'r fath yn briodol er budd y cyhoedd.

[2] Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Rybuddion Syml i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/397867/adult-simple-caution-guidance.pdf

## Lleoliad ar gyfer treial

23. Rhaid i erlynwyr ystyried y canllawiau dyrannu ac unrhyw ganllawiau dedfrydu perthnasol a chyfredol wrth wneud argymhellion i'r llys ynadon ynglŷn â ble dylai'r diffynnydd gael ei roi ar brawf.

24. Rhaid i erlynwyr gofio y dylai unigolion sydd dan 18 oed gael eu rhoi ar brawf yn y llys ieuenctid os oes modd. Dyma'r llys mwyaf addas ar gyfer eu hanghenion penodol. Dim ond yr achosion mwyaf difrifol, neu achosion lle dylai unigolyn dan 18 oed sefyll ei brawf ar y cyd ag oedolyn er mwyn sicrhau cyfiawnder, ddylai gael eu cynnal yn Llys y Goron.

## Derbyn Pleon Euog

25. Mae'n bosibl y bydd diffynyddion eisiau pledio'n euog i rai troseddau, ond nid y cyfan. Neu, mae'n bosibl y byddant eisiau pledio'n euog i drosedd wahanol, nad yw mor ddifrifol efallai, oherwydd eu bod yn cyfaddef rhan yn unig o'r drosedd.

26. Ni ddylai erlynwyr dderbyn ple'r diffynnydd oni bai eu bod o'r farn y gall y llys roi dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y drosedd, yn enwedig os oes nodweddion sy'n gwneud y drosedd yn waeth. Ni ddylai erlynwyr byth dderbyn ple euog dim ond oherwydd bod hynny'n gyfleus.

27. Wrth ystyried a yw'r pleon a gynigir yn dderbyniol, dylai erlynwyr sicrhau bod sylw'n cael ei roi i fuddiannau'r dioddefwr, neu fuddiannau teulu'r dioddefwr mewn achosion priodol, wrth benderfynu a fyddai derbyn y ple o fudd i'r cyhoedd. Er hyn, yr erlynydd fydd yn gyfrifol am y penderfyniad.

28. Rhaid esbonio i'r llys ar ba sail y cyflwynir ac y derbynnir unrhyw ble. Mewn achosion lle bydd diffynnydd yn pledio'n euog i'r troseddau, ond ar sail ffeithiau sy'n wahanol i achos yr erlyniad, a lle gallai hyn gael effaith sylweddol ar y ddedfryd, dylid gwahodd y llys i wrando tystiolaeth er mwyn penderfynu beth ddigwyddodd, yna dedfrydu ar sail hynny.

# Ailystyried Penderfyniad i Erlyn

29. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd erlynydd yn credu bod angen gwrthdroi penderfyniad i beidio ag erlyn, ymdrin ag achos drwy Rybudd Syml, neu ailgychwyn erlyniad, yn enwedig os yw'r achos yn un difrifol.

30. Gallai hyn ddigwydd pan mae adolygiad pellach o'r penderfyniad gwreiddiol yn dangos ei fod yn anghywir, ac er mwyn cadw hyder y cyhoedd yn y broses erlyn dylid cychwyn erlyniad er gwaetha'r penderfyniad cynharach.

31. Mewn rhai achosion bydd rhagor o dystiolaeth wedi dod i'r amlwg ar ôl i achos gael ei atal, ac ar ôl adolygiad o'r dystiolaeth bydd erlynydd yn penderfynu bod y Prawf Erlyn wedi cael ei basio.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

2 Mehefin 2017

Annwyl David

## Papur Gwyn Bil y Diddymu Mawr

Diolch am eich llythyr yn gwahodd ein Pwyllgor i gyfrannu at eich ymchwiliad i Bapur Gwyn Bil y Diddymu Mawr ('y Papur Gwyn').

Er nad yw'r Pwyllgor wedi gwneud unrhyw waith penodol ar y Papur Gwyn, rydym ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad sy'n ystyried hawliau dynol yng Nghymru, ac felly mae ein sylwadau ar y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar y maes hwn. Mae'n amlwg y gwneir ein sylwadau yng nghyd-destun yr etholiad cyffredinol sydd i ddod, a'u bod yn seiliedig ar safbwynt presennol Llywodraeth y DU.

Mae ein hymchwiliad yn rhoi sylw i'r materion canlynol:

- yr effaith ar y modd yr amddiffynnir hawliau dynol yng Nghymru **wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd**,
- effaith cynnig Llywodraeth y DU i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 a chyflwyno **Deddf Hawliau y DU** i gymryd ei le, a
- **chanfyddiadau'r cyhoedd** o ran hawliau dynol yng Nghymru, yn arbennig o ran pa mor ddealladwy a pherthnasol ydynt i bobl Cymru.

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ysgrifenedig, a dwy sesiwn dystiolaeth lafar hyd yn hyn. Yn dilyn y sesiynau tystiolaeth, fe wnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn tynnu sylw at rai o'r materion a godwyd. Erbyn hyn rydym wedi cael ymateb i'r llythyr hwn, ac

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

yr wyf wedi ei amgáu. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru yn y llythyr hwn i barhau i amddiffyn hawliau dynol.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn y Papur Gwyn y bydd yr holl feysydd a amddiffynnir yn Neddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r DU adael yr UE. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo i beidio â newid rôl flaenllaw'r DU o ran diogelu a hyrwyddo hawliau dynol.

Rydym wedi cael tystiolaeth yn mynegi pryderon am statws y Siarter Hawliau Sylfaenol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi cael ar ddeall na fydd gan y Siarter fwyach unrhyw statws cyfreithiol yn y DU, ac mae'r Papur Gwyn yn nodi'n glir na fydd y Siarter yn cael ei throsi'n gyfraith y DU gan Fil y Diddymu Mawr. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi na fydd dileu'r Siarter yn effeithio ar hawliau sylweddol y mae unigolion eisoes yn elwa ohonynt yn y DU. Fodd bynnag, ar ôl i'r DU adael yr UE, ni fyddai'n rhaid i gyfraith yn y DU gydymffurfio â'r Siarter, ac yn sgil hyn pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd y Siarter o ran amddiffyn hawliau dynol yng Nghymru.

Nodwyd ganddynt ystod o hawliau a amddiffynnir gan y Siarter ond nad ydynt wedi’u cynnwys yn y Ddeddf Hawliau Dynol; a phwysleisiwyd y bydd cael gwared ar hawliau'r Siarter yn dileu un ffordd y gall dinasyddion yn y DU herio cyfraith y DU pan maent yn credu ei bod yn groes i'r materion a amddiffynnir o fewn y Siarter. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y gall hawlio yn erbyn torri cyfraith hawliau dynol o dan gyfraith yr UE fod yn haws na hawlio yn erbyn y Ddeddf Hawliau Dynol. Nodwn fod gan Lywodraeth Cymru 'bryderon dwys iawn am fwriadau Llywodraeth bresennol y DU mewn perthynas â’r Siarter Hawliau Sylfaenol'.

Mewn tystiolaeth lafar, esboniodd yr Athro Thomas Glyn Watkin i'r Pwyllgor ei bryderon er bydd hawliau yn cael eu diogelu ar yr adeg ymadael, fod perygl y bydd y DU yn cael ei gadael ar ôl wrth i fframwaith yr UE ar gyfer hawliau dynol barhau i gael ei ddatblygu. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu am hyn, ac rydym yn

credu y dylid rhoi rhagor o sylw i sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn arweinydd byd ar hawliau dynol.


Nododd yr Athro Simon Hoffman hefyd er bod y Papur Gwyn yn sôn am bwysigrwydd y trafodaethau ynghylch dyfodol plant, na roddir unrhyw fanylion ynghylch blaenoriaethau plant. Anogodd Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i sicrhau bod plant yn cael llais yn y trafodaethau a bod buddiannau plant yn cael eu blaenoriaethu. Dyma rywbeth y byddem yn ei gefnogi.

Lleisiwyd pryderon hefyd gan yr ymatebwyr ysgrifenedig na fydd y DU yn y dyfodol yn elwa o gyfarwyddebau a rheoliadau sy'n ymwneud â hygyrchedd a'r effaith sylweddol y gallai hyn ei chael ar ddinasyddion.

Rydym yn nodi yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn eu bod yn tynnu sylw at yr effaith bosibl ar faterion gydraddoldeb yn sgil colli cyllid yr UE. Cododd ymatebwyr i'n hymgynghoriad bryderon hefyd ynglŷn â hyn mewn perthynas â hawliau dynol, ac rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r mater hwn.

Wrth i ni fwrw ymlaen â'n hymchwiliad, byddwn yn parhau i rannu unrhyw wybodaeth arall gyda chi y credwn y gall fod o ddefnydd i'ch pwyllgor. Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn er gwybodaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Cofion cynnes




John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Carl Sargeant AM
Cabinet Secretary for Communities and Children

12 May 2017

Dear Carl,

**Abolition of the Right to Buy and Associated Rights (Wales) Bill**

Thank you for your recent letters providing additional information in relation to the Abolition of the Right to Buy and Associated Rights (Wales) Bill ('the Bill').

At yesterday's meeting, the Committee agreed that I should write to you seeking clarification on a number of issues ahead of your evidence session on 25 May.

- In developing the Bill's proposals:
  - what work did the Welsh Government undertaken to consult with tenants and how did you ensure that a broad spectrum of views were captured;
  - whether you sought views of tenants in areas where the right to buy and the right to acquire has already been suspended, and whether their views were sought on lifting the suspension to enable them a final opportunity to purchase their homes ahead of the proposed abolition;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- We have received evidence from stakeholders noting that tenants residing in local authority areas, where the right to buy (and associated rights) have already been suspended under the Housing Measure 2011, will not be given a further opportunity to exercise those rights. (Under the Bill, other tenants will be given a period of at least one year to exercise their rights.) Could you provide details of what legal consideration has been given by you in terms of:
  - the legitimate expectations of the affected tenants in the suspended areas, if they were only consulted in terms of suspending their rights and not abolishing them ;
  - the tenant's human rights in terms of Article 1 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights. Paragraph 3.33 of the Explanatory Memorandum entitled Human Rights states that the Welsh Government considers twelve months for tenants to exercise their rights as being a period that "strikes the necessary fair balance between the rights of the tenant and the wider public interest in safeguarding the stock of social housing." How do you justify tenants in those suspended areas having no time to exercise their rights;
  - the tenant's human rights in terms of discrimination under Article 14 of the European Convention of Human Rights where tenants living in different local authority areas will be treated differently; and
  - the risk of possible Judicial Review litigation being initiated by affected tenants in those areas currently suspended, as highlighted in evidence we have received.

- In your letter dated 30 April, you helpfully clarified the purpose and intended effect of sections 2 and 4 of the Bill. Following on from this, we would like you to outline why these sections have been drafted to refer to restricting the Right to Buy and associated rights unless it's a dwelling house from 'previously-let stock'. For clarity could these sections instead

refer to the Right to Buy and associated rights in respect of “dwelling houses that are new to the social housing stock”?

It would be helpful if you could respond ahead of the 25 May meeting and preferably by Thursday 18 May.

Yours sincerely

John Griffiths AM
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-CS-0361-17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

22nd Mai 2017

Annwyl John

**BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mai yn dilyn fy llythyrau diweddar ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

Yn eich llythyr, roeddech yn gofyn am ragor o eglurhad am nifer o faterion cyn fy sesiwn dystiolaeth ar 25 Mai. Rwy'n nodi manylion ychwanegol isod.

*Ymgynghori*

**Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig i ddiddymu'r hawl i brynu ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys yr holl ardaloedd hynny y mae'r hawl i brynu wedi'i hatal dros dro.**

Cynhaliwyd ymgynghoriad pwysig Llywodraeth Cymru ar y cynigion a oedd yn ymwneud â'r Hawl i Brynu a hawliau cysylltiedig drwy'r Papur Gwyn ar Dai, sef 'Dyfodol yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael', rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2015. Cafodd y Papur Gwyn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'i anfon at amrediad o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau a oedd yn cynrychioli landlordiaid, tenantiaid a'r trydydd sector. Fel sydd wedi'i nodi yn Rhan 1 (4) o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, cafodd 94 o ymatebion eu derbyn gan amrediad eang o ymatebwyr, a oedd yn cynnwys 30 o ymatebion gan denantiaid i landlordiaid cymdeithasol.

Yn ychwanegol at hynny, cynhaliwyd sesiynau ar gyfer rhanddeiliaid rhwng mis Medi 2015 a mis Chwefror 2016. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys sefydliadau a oedd yn cynrychioli tenantiaid a Shelter Cymru. Roedd Tenantiaid Cymru wedi pwysleisio'r angen am gyflenwad digonol o dai rhent cymdeithasol i ddiwallu anghenion y rhai hynny na allant fforddio caffael cartref drwy'r farchnad dai. Gyda chefnogaeth sefydliadau a oedd yn cynrychioli tenantiaid (Tenantiaid Cymru a TPAS Cymru), cafodd y ddyletswydd i wybodaeth gael ei hanfon at bob tenant ei hychwanegu at wyneb y Bil.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd Shelter Cymru yn ffafrio galluogi tenantiaid cymwys mewn ardaloedd yr oedd eu Hawl i Brynu/Gaffael wedi'u hatal i gael un cyfle i brynu eu cartrefi cyn i'r hawliau hynny gael eu diddymu. I'r gwrthwyneb i hynny, roeddent hefyd, ynghyd â sefydliadau a oedd yn cynrychioli tenantiaid, yn cefnogi defnyddio Mesur 2011.

Mae'r Mesur yn gofyn i awdurdodau lleol ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses o wneud cais am atal yr hawliau dros dro, gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli buddiannau tenantiaid yn ardal yr awdurdod, a phersonau eraill sy'n ymddangos yn briodol yn ôl yr awdurdod.

Er mwyn i'r hawl i brynu gael ei hatal dros dro, rhaid i awdurdod lleol gael tystiolaeth fod y galw am dai cymdeithasol yn fwy o lawer na'r cyflenwad, neu'n debygol o fod, a bod y cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw yn debygol o gynyddu fel canlyniad i arfer yr hawl i brynu.

*Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – Ardaloedd y mae'r hawliau wedi'u hatal dros dro ynddynt*

**Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod meddiant gan denantiaid yn yr ardaloedd y mae'r hawl i brynu wedi'i hatal dros dro ynddynt, at ddibenion Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (A1P1).**

**Fodd bynnag, rydym yn fodlon, hyd yn oed pe bai A1P1 yn berthnasol, y byddai darpariaethau'r Bil, o ran eu bod yn gweithio yng nghyd-destun ardaloedd y mae'r hawliau wedi'u hatal ynddynt, yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn mewn perthynas ag A1P1 a thenantiaid.**

**Mae'r darpariaethau yn y Bil wedi'u cynllunio i roi'r polisi o derfynu'r hawl i brynu ar waith, ac o wneud hynny, rydym yn fodlon bod y cynigion yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn. Nid yw hynny'r un fath â dweud bod y cynigion yn y Bil, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfnod o flwyddyn cyn i'r hawliau gael eu diddymu, yn angenrheidiol i'r Bil gydymffurfio â hawliau'r Confensiwn.**

*Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf*

Mae A1P1 yn darparu bod gan bob bod dynol neu berson cyfreithiol yr hawl i fwynhau eu meddiannau yn heddychlon. Ni chaiff meddiannau eu cymryd oddi ar neb, ac eithrio er budd y cyhoedd, ac yn unol ag amodau a ddarperir amdanynt o dan y gyfraith ac yn unol ag egwyddorion cyffredinol cyfraith ryngwladol. Nid yw hynny'n atal gwladwriaeth rhag gorfodi'r cyfreithiau hynny y mae'n ystyried bod eu hangen i reoli'r defnydd o eiddo yn unol â buddion cyffredinol. Wrth ystyried a yw ymyrryd ag eiddo person yn cydymffurfio ag A1P1, y prawf cyffredinol yw:

- a gymerir y camau er mwyn cyflawni nod cyfreithlon er budd y cyhoedd;
- a yw'r camau a gymerir yn rhesymol a chymesur ac ar drywydd cyflawni'r nod hwnnw; ac
- a ydynt yn sicrhau'r 'cydbwysedd teg sydd ei angen' rhwng y partïon sy'n cael eu heffeithio (gweler *Mellacher v Awstria* (1989) Siarter Hawliau Dynol Ewrop 10522/83).

Wrth sefydlu nod cyfreithlon, mae gan wladwriaethau derfynau eang ym maes cyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys tai cymdeithasol (gweler *James v y DU* [1986] Siarter Hawliau Dynol Ewrop 8793/79).

Y nod cyfreithlon cyhoeddus yw diogelu'r stoc o dai cymdeithasol. Er y gallai cynigion y Bil effeithio ar denantiaid presennol yn uniongyrchol, bwriedir i'r polisi fod o fudd i denantiaid presennol, tenantiaid sydd ar restrau aros ar y pryd, pobl ddigartref ac unrhyw unigolion a allai fod angen dibynnu ar y stoc o dai cymdeithasol yn y dyfodol.
Er bod tenantiaid mewn ardaloedd y mae'r hawl i brynu wedi'i hatal dros dro ynddynt, a thenantiaid mewn ardaloedd y mae modd arfer yr hawl i brynu ynddynt o hyd, fel y nodwyd uchod, os bydd yr hawl i brynu eisoes wedi'i hatal dros dro, byddai'r awdurdodau lleol wedi gorfod dangos bod pwysau mawr o ran tai ac anghydbwysedd sylweddol o ran y cyflenwad a'r galw. Cyn atal yr hawliau dros dro, byddai angen ymgynghori â'r tenantiaid, a byddent wedi cael y cyfle i brynu eu cartrefi.

Bydd awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn yr ardaloedd hynny y mae'r hawliau wedi'u hatal ynddynt, wedi datblygu cynlluniau busnes ar sail hynny, ac wedi cymryd camau i roi'r cynlluniau hynny ar waith a sicrhau bod tai cymdeithasol ar gael i'r rhai hynny sydd eu hangen fwyaf. Gallai’r broses o wrthdroi atal yr hawliau dros dro olygu eu bod yn anwybyddu (er dros dro) y ffaith fod pwysau mawr yn bodoli ar gyfer cartrefi.

Rhaid hefyd ystyried cynigion y Bil yn y cyd-desun ehangach. Ni fydd terfynu'r hawl i brynu yn effeithio ar hawliau tenantiaid i feddiannu eu cartrefi; bydd diogelwch deiliadaeth a rhenti fforddiadwy gan denantiaid o hyd, a byddant yn elwa ar y buddsoddiad gan landlordiaid i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn ogystal, mae nifer o gamau eraill yn cael eu cymryd gan y Llywodraeth i wella'r gallu i gael cartref ar ffurf amrywiaeth o ddeiliadaethau, er enghraifft Cymorth i Brynu - Cymru, a Cymorth Prynu. Mae'r Llywodraeth a landlordiaid cymdeithasol yn buddsoddi hefyd mewn stoc newydd o dai cymdeithasol a fydd yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy gael gwared ar y rhwymedigaeth ar landlord i werthu eu hasedau am bris gostyngol.

Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau plant (a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru) hefyd yn dangos effaith gadarnhaol fel canlyniad i'r Bil, ac mae'r cynigion yn y Bil yn cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016.

I grynhoi, mae'r Llywodraeth yn fodlon bod holl gynigion y Bil, gan gynnwys eu heffaith ar denantiaid mewn ardaloedd sy'n atal yr hawliau dros dro ac mewn ardaloedd eraill, ar drywydd nod cyfreithlon er budd y cyhoedd, ac yn rhesymol a chymesur er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, ac yn sicrhau'r cydbwysedd teg sydd ei angen. Felly, mae'r Llywodraeth o'r farn bod darpariaethau'r Bil yn gyson â hawliau'r Confensiwn ac o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

*Erthygl 14*

Mae erthygl 14 yn darparu'r canlynol, *“the enjoyment of the rights and freedoms set forth in this European Convention on Human Rights shall be secured without discrimination on any ground such as sex, race, colour, language, religion, political or other opinion, national or social origin, association with a national minority, property, birth or other status”*. Nid yw erthygl 14 yn darparu hawl annibynnol i anwahaniaethu, ond mae'n datgan bod angen sicrhau holl hawliau eraill y Confensiwn heb unrhyw wahaniaethu. Fel y nodwyd eisoes, mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw A1P1 yn berthnasol mewn perthynas â thenantiaid mewn ardaloedd y mae'r hawliau wedi'u hatal dros dro ynddynt, ac felly ar sail hynny nid yw erthygl 14 yn berthnasol ychwaith. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai erthygl 14 yn berthnasol, nid yw'r Llywodraeth o'r farn y byddai gwahaniaethu ar sail unrhyw un o'r rhesymau a restrir. Beth bynnag, nid yw amgylchiadau tenantiaid yn y gwahanol ardaloedd yn cyfateb.

Roedd gan yr Alban ardaloedd yr oedd yr hawl i brynu wedi'i hatal dros dro cyn y diddymiad a gafodd ei roi ar waith yn 2016.  Nid oedd yr ataliadau dros dro wedi'u gwrthdroi cyn y diddymiad.  Rwy ar ddeall, na fu unrhyw gŵyn ffurfiol ar seiliau Hawliau Dynol yn yr Alban.

*Tenantiaid mewn ardaloedd y mae'r hawliau wedi'u hatal ynddynt - y disgwyliad cyfreithlon*

**Cynhaliwyd ymgynghoriad eang mewn perthynas â diddymu'r hawl i brynu, a chafodd y polisi ei gynnwys ym maniffesto'r blaid Lafur a Phlaid Cymru cyn yr etholiad ym mis Mai 2016.  Nid ydym o'r farn y gallai tenantiaid ddisgwyl ei bod yn rhesymol y byddai'r ataliadau dros dro yn dod i ben cyn y diddymiad.**

Gall cyfarwyddyd sy'n atal yr hawl i brynu dros dro mewn ardal o dan Fesur Tai (Cymru) 2011 bara pum mlynedd yn y lle cyntaf, a gellir estyn y cyfnod hwnnw i ddeg mlynedd.  Mae pob cais i atal yr hawl i brynu dros dro wedi bod am gyfnod o bum mlynedd hyd yn hyn.

Cafodd diddymu'r hawl i brynu ei gynnwys ym maniffesto'r Blaid Lafur a maniffesto Plaid Cymru cyn etholiad y Cynulliad yn 2016. Nid yw'r Llywodraeth wedi gwneud addewid na chyflwyno achos ar unrhyw adeg y byddai ataliadau dros dro yn cael eu gwrthdroi cyn y diddymiad.  Felly, o ystyried cyhoeddusrwydd eang cynigion y Llywodraeth i ddiddymu'r hawl i brynu, a'r ymgynghoriad arnynt, nid ydym o'r farn y gallai tenantiaid ddweud ei bod yn rhesymol disgwyl y bydd ataliadau dros dro'n cael eu gwrthdroi cyn y diddymiad (p'un ai a yw hynny ar ôl pum mlynedd, neu ddeg mlynedd, os yw'r cyfnod yn cael ei estyn), ac y byddai cyfle i arfer yr hawl i brynu ar gael y pryd hwnnw.

*Adolygiad Barnwrol*

Ni allwn wneud sylwadau ar y camau y gallai unigolion eu cymryd wrth gyflwyno unrhyw achos ar gyfer yr adolygiad barnwrol. Mater i'r unigolion hynny yw hwnnw.  Fodd bynnag, gallwn bwysleisio ein bod yn ystyried bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a'i fod yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn os ydynt yn berthnasol.

*"Stoc tai a osodwyd yn flaenorol"*

Diolch am eich sylwadau mewn perthynas ag adrannau 2 a 4 o'r Bil. Rydym yn gwerthfawrogi bod y darpariaethau hyn yn rhai cymhleth a bod y Llywodraeth wedi ceisio eu drafftio mor syml ag sy'n bosibl.  Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau oherwydd bod angen ymdrin â chymhlethdodau deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, â chymhlethdodau sy'n codi'n arbennig mewn perthynas â'r hawl i brynu a gadwyd, ac oherwydd bod angen llunio rhai eithriadau i'r rheol gyffredinol sy'n cyfyngu'r hawl i brynu.

Roeddem wedi ystyried geirio'r adrannau hyn drwy gyfeirio at 'stoc tai a osodir am y tro cyntaf', ac a dweud y gwir, cafodd drafft cynharach o'r Bil ei gynhyrchu ar sail y geiriad hwnnw. Roedd y diffiniad 'stoc tai a osodir am y tro cyntaf' yn cyfeirio o hyd at stoc nad oedd o anghenraid yn 'stoc tai a oedd eisoes yn bodoli', hynny yw 'stoc tai a osodwyd yn flaenorol'.  Felly, nid oedd yn bosibl i osgoi'r cysyniad yn gyfan gwbl. Yn ychwanegol at hynny, roedd ymdrin â chymhlethdodau'r eithriad a'r hawl i brynu a gadwyd yn gymhleth yn gysyniadol oherwydd y geiriad hwnnw. Felly, am y rhesymau hynny, mabwysiadwyd y geiriad arall yn y Bil.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at fynd i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Mai.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Eitem 3.6

**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/ARD/0378/17

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

7 Mehefin 2017

Annwyl Huw,

Diolch i chi am adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am yr amser mae wedi'i roi i gyflawni'r gwaith o lunio'r adroddiad hwn. Gobeithiaf y gallwn ei ddefnyddio i gryfhau'r Bil a'r system o roi cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi'i hamlinellu ynddo.

Bydd angen ystyried argymhellion y Pwyllgor yn ofalus nawr a'u trafod. Unwaith y byddaf wedi ystyried yr adroddiad yn ofalus byddaf yn ysgrifennu atoch eto i amlinellu fy ymateb i bob un o'r argymhellion.

Cofion

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon